

Cyngor Sir Caerfyrddin - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod mis Mai 2015 tan fis Mai 2016 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

Y Cynghorydd: Peter Cooper	Adran Etholiadol: Saron
-----------------------------------	--------------------------------

Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau		
<i>Pwyllgorau'r Cyngor</i>	<i>Cofnod Presenoldeb</i>	
	<i>Rhif</i>	<i>Yn Bresennol</i>
Cyngor Sir	14	14
Y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd (Cadeirydd)	5	5
Y Pwyllgor Cynllunio	24	22
Pwyllgor ar y Cyd – Craffu Cymunedau a Chynllunio	2	1
Pwyllgor ar y Cyd – Craffu Cymunedau a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd		1*
Pwyllgor ar y Cyd - Craffu Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a Chraffu Addysg a Phlant	1	1
Pwyllgor Penodi B - Penaethiaid Gwasanaeth		2*
Pwyllgor Safonau	1	1
*Mynychu fel eilydd		

Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth
<p>PARTH 20MYA NEWYDD I SARON Rwyf wrth fy modd fod y gwaith ar barth 20 milltir yr awr newydd Saron wedi'i gwblhau. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r trigolion a'r cyngor lleol dros y blynyddoedd diwethaf ar y mesurau newydd, sydd bellach ar waith. Mae'r marciau ffordd newydd ger yr ysgol, ynghyd â'r arwyddion a'r twmpathau, wedi'u dylunio i wneud yr ardal yn fwy diogel i'r disgyblion yno, yn ogystal ag i drigolion Llŷs yr Ysgol a chwaraewyr Clwb Pêl-droed Iau Saron. Fel y gŵyr y trigolion, mae Heol Saron yn brysur iawn ac mae cynnydd wedi bod mewn goryrru yn ddiweddar.</p> <p>Y DIWEDDARAF AM BARCIAU Mae cynlluniau ar waith i Gyngor Cymuned Llandybie ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros barciau a meysydd chwarae cyhoeddus yn y ward. Rwyf o'r farn y bydd hyn yn helpu i wella'r modd y caiff y parciau hyn eu cynnal a'u cadw. Byddwn yn gwybod rhagor yn ystod y misoedd nesaf a rhoddir gwybod i drigolion am y datblygiadau diweddaraf.</p> <p>MARCIAU Ffordd NEWYDD YM MHEN-Y-BANC Gofynnais i'r Cyngor baentio llinellau melyn dwbl y tu allan i archfarchnad Pen-y-banc, ar ôl i drigolion lleol fynegi pryderon am gerddwyr a modurwyr ar y ffordd brysur. Rwyf yn</p>

gobeithio y bydd y llinellau newydd yn atal tagfeydd traffig wrth y gyffordd, gan ei gwneud yn haws ac yn fwy diogel i gerddwyr groesi'r ffordd.

GWRTHOD GWAITH GWASTRAFF YNG NGHWMGWILI

Siaradais a phleidleisiais yn erbyn cynlluniau i adeiladu gwaith prosesu gwastraff yng Nghwmgwili yn un o gyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin yn gynharach eleni.

Cafodd y Cyngor fwy na 330 o lythyrau o wrthwynebiad ac roeddwn yn hynod falch fod pawb arall ar y Pwyllgor Cynllunio wedi pleidleisio yn erbyn y cynlluniau hyn yn yr un modd â mi. Pe bai'r safle wedi cael ei gymeradwyo, gallai hynny fod wedi arwain at allyriadau niweidiol, yn ogystal â llawer o draffig ychwanegol ar ffyrdd yn y pentref sy'n rhy brysur eisoes.

GWELLIANNAU I SGWÂR CAPEL HENDRE

Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi bod yn cwrdd â swyddogion y Cyngor Sir a'r Heddlu i ddechrau gweithio ar welliannau pellach i'r llif traffig ar sgwâr Capel Hendre.

Rwyf yn gwybod bod gan gerddwyr a modurwyr bryderon ynghylch y gyffordd fel y mae ar hyn o bryd. Ymhlith yr opsiynau sy'n cael eu hystyried y mae creu cylchfan fach a newid y blaenoriaethau traffig. Trefnir rhagor o gyfarfodydd ac ymgynghorir yn llawn â thrigolion lleol ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig.

Dros y blynnyddoedd diwethaf rwyf wedi bod yn ceisio gwella **cyfleusterau ailgylchu** yn y ward. Hoffwn atgoffa trigolion bod cyfleusterau ailgylchu gwydr ar gael yn y mannau canlynol: Maes Parcio Neuadd Les Saron; Maes Parcio Pen y Brenin, Capel Hendre; Neuadd Gwynfryn; Llys yr Ysgol. O achos anawsterau mynediad yn y man blaenorol ym Mhen-y-banc, mae'r Cyngor yn chwilio am fan newydd a rhoddir gwybod i'r trigolion pan ddeuir o hyd i un.

Rwyf wedi bod yn mynychu'n rheolaidd y **cyfarfodydd PACT** misol sy'n dod â thrigolion, yr Heddlu, a chynghorwyr at ei gilydd i drafod ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion eraill yn y gymuned. Cynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd Goffa Llandybïe ar ddydd Mercher cyntaf y mis rhwng 6.30pm a 7.30pm. Mae'r cyfarfodydd yn agored i unrhyw un sy'n byw yn ward Saron a gellir cael rhagor o fanylion gan yr heddlu lleol - e-bost a rhif ffôn: Deialwch 101 ar gyfer achos nad yw'n argyfwng, neu anfonwch e-bost at:

ContactCentre@dyfed-powys.pnn.police.uk

Llofnodwyd gan y Cynghorydd: Peter Cooper

Dyddiad: 24/04/16